AMGUEDDFA CYMRU

# PECYN HAF 2024



## Ar gael o fis Mehefin tan fis Medi

amgueddfa.cymru

# EICH HAF
# EICH STORI
# EICH AMGUEDDFA

Yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, rydyn ni'n cynnig arlwy unigryw i chi ei fwynhau ar ddyddiau braf o haf!



**Ffi Haf Arbennig ar gyfer Llogi Cyfleusterau – £2,500 +TAW**

O Pimm's i Prosecco, dewch i fwynhau diod hafaidd yn ein Prif Neuadd eiconig tra bydd ein harlwywyr arobryn yn gweini bwffe barbeciw tymhorol, gyda detholiad o ddanteithion blasus ar yr ochr.

I goroni'r cyfan, beth am gynnig mynediad i'ch gwesteion at un o'r casgliadau gorau o gelf Argraffiadol yn Ewrop, drwy ychwanegu ein Horielau Modernaidd ac Argraffiadol godidog at eich archeb.

P'un a ydych chi'n dod ynghyd fel cwmni i ddathlu diwedd y tymor, neu'n cynnal digwyddiad meithrin cleientiaid neu rwydweithio cymdeithasol, dyma'r lleoliad perffaith ar gyfer derbyniad hafaidd yn y ddinas. Peidiwch â cholli'r cyfle hwn sydd ar gael am gyfnod cyfyngedig.

Mae ein tîm arbenigol wrth law i ofalu am bopeth, o awgrymiadau am gerddoriaeth ac adloniant, i addurniadau a'r manylion bach. Bydden ni wrth ein bodd yn trafod eich digwyddiad gyda chi!

Am ragor o wybodaeth ac i drefnu eich soirée yr haf hwn, cysylltwch â'n Tîm Masnachol ar llogi@amgueddfacymru.ac.uk





# Bwydlen Barbeciw Haf

**Gwydraid o Prosecco, Pimm's neu Ysgawen Pefriog i'ch croesawu**

**Dewiswch 3 phrif gwrs:**

- Byrgyr cig eidion Celtic Pride mewn rôl brioche feddal, gyda relish tomato melys a dail cymysg
- Byrgyr ffalaffel cartref sbeislyd mewn rôl wedi'i thostio gyda hwmws, iogwrt mintys a dail cymysg
- Selsigen porc a chennin gyda marmalêd winwnsyn Goetre mewn rôl ci poeth brioche feddal
- Selsigen Quorn fegan gyda marmalêd winwnsyn Goetre mewn rôl brioche feddal
- Sgiwers cyw iâr wedi'u marinadu a'u grilio
- Sgiwers llysiau wedi'u marinadu a'u grilio



**Dewiswch 3 ychwanegiad:**

- Salad pasta, pesto a llysiau wedi'u rhostio
- Salad tatws a chennin syfi
- Salad cwscws
- Tatws pob hallt gyda menyn Cymreig
- Colslo coch crensiog
- Salad gardd ffres

£37.95 +TAW y pen





© Coal Poet Media

## Telerau ac Amodau

Mae archebion Haf ar gael rhwng mis Mehefin a mis Medi 2024 yn unig.

Mae mynediad i'r Amgueddfa rhwng 6pm tan 10.30pm.
Gellir gwneud cais i orffen yn hwyrach, am gost ychwanegol.

Lleiafswm o 120 o westeion ar gyfer pob archeb. Mae opsiynau ar gael ar gyfer grwpiau llai.

Ffi llogi cyfleusterau o £2,500 + TAW a ffioedd arlwyo o £37.95 + TAW y pen fydd yn cael eu hanfonebu ar wahân. Cyfradd safonol yw'r ffi i logi cyfleusterau.
Mae enghreifftiau o gostau cyfunol y pen isod:

| Nifer o westeion | Cost gyfunol y pen |
|---|---|
| 120 o westeion | £58.78 + TAW |
| 200 o westeion | £50.45 + TAW |
| 300 o westeion | £46.29 + TAW |

## Cyswllt

Am ragor o wybodaeth, i drefnu ymweliad â'r safle ac i archebu,
e-bostiwch llogi@amgueddfacymru.ac.uk
Ewch i'n gwefan **amgueddfa.cymru/llogi**

## Cefnogwch ni

Elusen yw Amgueddfa Cymru sy'n deulu o saith amgueddfa genedlaethol a chanolfan gasgliadau, wedi'u lleoli ar hyd a lled y wlad. Bydd pob digwyddiad rydych chi'n ei gynnal yn ein helpu i sicrhau bod Amgueddfa Cymru yn perthyn i bawb ac yma at ddefnydd pawb. Ein nod yw ysbrydoli pawb drwy adrodd stori Cymru yn ein hamgueddfeydd, ein cymunedau ac yn ddigidol, a pharhau i ddod â chelf o safon ryngwladol i Gymru.

Lluniau gan Coal Poet Media

Rhif elusen gofrestredig 525774

amgueddfa.cymru

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**